



Sian Williams  
[Sian.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Sian.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

30 Gorffennaf 2021

Annwyl Sian,

Rwy'n ysgrifennu i roi diweddariad ar waith Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithwyr llawrydd yng Nghymru.

Yn ystod pandemig COVID-19 nodwyd bylchau yn y cymorth a roddwyd i sefydliadau ac unigolion yr oedd yr argyfwng wedi effeithio arnynt, gyda nifer sylweddol o weithwyr llawrydd yn gweithio mewn amrediad eang o sectorau ledled Cymru yn methu â chael gafael ar y cymorth ariannol a oedd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i hyn, sefydlodd Llywodraeth Cymru gronfa i weithwyr llawrydd fel rhan o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, gan ddechrau gyda £63 miliwn i gefnogi'r sectorau Diwylliannol a Chreadigol yng Nghymru. Cafodd y Gronfa i Weithwyr Llawrydd ei gweinyddu gan Awdurdodau Lleol, a hoffwn ddiolch ichi a'ch cydweithwyr am ein helpu ni i weinyddu'r gronfa'n llwyddiannus yn ystod ei thri cham. Cafodd y gronfa ei chroesawu'n frwd, ac mae wedi helpu tua 3,425 o unigolion gyda dros na £15 miliwn. Gwelwch y crynodeb manylach ynghlwm sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am effaith y gronfa ledled Cymru ac yn eich ardal chi.

### **Adduned y Gweithwyr Llawrydd a'r Sector Cyhoeddus**

Elfen allweddol o'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd yw Adduned y Gweithwyr Llawrydd a'r Sector Cyhoeddus, y mae copi ohoni ynghlwm wrth y llythyr hwn. Rhoddwyd yr opsiwn i weithwyr llawrydd a wnaeth gais am gyllid ymrwymo i'r adduned. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cymorth ehangach i sefydliadau a busnesau drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, sy'n gweithio i ddatblygu contractau diwylliannol dros y 12 mis nesaf, a fydd yn targedu meysydd â blaenoriaeth megis amrywiaeth, gwaith teg a chynaliadwyedd.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nod y dull partneriaeth hwn yw mynd i'r afael â heriau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yng Nghymru. Mae cyrff cyhoeddus a gweithwyr llawrydd eisoes yn cydweithio i fynd i'r afael â meysydd fel unigrwydd, arwahanrwydd, adfywio canol trefi a dinasoedd, iechyd meddwl, mynediad at natur a chydlyniant cymunedol. Wrth inni ailgodi'n gryfach, mae Adduned y Gweithwyr Llawrydd yn ymrwymo i wneud hynny mewn modd creadigol, gan gydnabod y rôl y mae diwylliant yn ei chwarae wrth inni adfer.

Byddai mabwysiadu'r adduned hon yn dangos ymhellach gyfraniad cyrff cyhoeddus at

'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' ac yn hyrwyddo 'lles diwylliannol' o fewn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Er mwyn datblygu'r adduned, sefydlwyd gweithgor o'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Llywodraeth Cymru;
- Yr Undebau Llafur;
- Gweithwyr Llawrydd (a gynrychiolir gan grŵp amrywiol o bobl);
- Awdurdodau Lleol – Is-gadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden Cymru, Cadeirydd yr Is-grŵp Diwylliant;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae'r ffaith bod enw Adduned y Gweithwyr Llawrydd a'r Gweithgor wedi cael ei newid yn ddiweddar i Adduned y Gweithwyr Llawrydd, y Sector Cyhoeddus a'r Gweithgor yn dangos cydymrwymiad gan y sector cyhoeddus a gweithwyr llawrydd i ddatblygu'r agenda hon.

## Ymchwil

Mae ein gwaith i gefnogi gweithwyr llawrydd drwy'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd hefyd wedi amlygu bwch yn ein gwybodaeth am faint a chyfansoddiad y gymuned gweithwyr llawrydd yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif bod 40,000 o weithwyr llawrydd yn gweithredu yng Nghymru, sy'n chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y Llywodraeth megis iechyd meddwl, unigrwydd ac arwahanrwydd. Rydym yn gwybod bod yr unigolion hyn yn cefnogi Awdurdodau Lleol gydag amrediad o brosiectau. Fodd bynnag, mae angen inni wybod mwy am y cyfraniad sylweddol y mae gweithwyr llawrydd yn ei wneud ar lefel leol a chenedlaethol. Ein bwriad yw defnyddio trefniadau newydd a'n perthynas gryfach â gweithwyr llawrydd drwy'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd a'r Gweithgor i greu darlun gwell o bwysigrwydd y sector llawrydd i economïau lleol ac economi Cymru, i'r agenda gymdeithasol ac i lesiant cymunedol. Ochr yn ochr â hyn, ein nod yw datblygu dealltwriaeth fanwl o gyfleoedd ar draws y sectorau llawrydd a chyhoeddus a ddylai fod o fudd i'n holl waith yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i roi diweddariad ar y maes gwaith hwn, gan ein bod yn awyddus iawn i sicrhau bod gennym ddull cyffredin yn y sector cyhoeddus wrth ddatblygu'r maes gwaith hwn. Rwy'n siŵr eich bod yn gwybod ein bod yn awr wrthi'n darparu £30 miliwn drwy ail rownd y Gronfa Adferiad Diwylliannol, sydd unwaith eto wedi cynnwys elfen o gymorth i weithwyr llawrydd. Diolch ichi a'ch tîm am ein cefnogi unwaith eto i weinyddu'r gronfa bwysig hon. Byddai fy swyddogion yn croesawu'r cyfle i drafod unrhyw un o'r materion uchod yn fanylach â'ch tîm ar unrhyw adeg.

Yn gywir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Dawn Bowden AS/MS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip  
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Sian Williams  
[Sian.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Sian.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

30 July 2021

Dear Sian,

I am writing to provide an update on the Welsh Government's work to support the freelance community in Wales.

During the course of the COVID-19 pandemic gaps were identified in the support introduced for organisations and individuals impacted by the crisis, with a significant number of freelancers working in a wide range of sectors across Wales unable to access financial support delivered by the UK Government and the Welsh Government.

In response to this, the Welsh Government established a freelancer fund as part of the Cultural Recovery Fund announced in July 2020 with an initial £63m to support the Cultural and Creative sectors in Wales. The freelancer fund was delivered by Local Authorities and I would like to express my thanks to you and your colleagues for your help in enabling us to successfully deliver the fund over its three phases. The fund has been extremely well received and supported around 3,425 individuals with more than £15 million. Please find attached a more detailed summary which provides further information on the impact of the fund across Wales and within your own area.

### **The Freelancer and Public Sector Pledge**

A key element of the freelancer fund is the freelancer and public sector pledge, a copy of which is attached to this letter. Freelancers who applied for funding were given the option to sign up to the pledge. This aligns to the wider support for organisations and businesses through the Cultural Recovery Fund, who are working to develop cultural contracts over the next 12 months, which will target priority areas such as diversity, fair work and sustainability.

In line with the Well-being of Future Generations Act, this partnership approach will hope to address Wales' social, economic, cultural and environmental challenges. Public bodies and freelancers are already working collaboratively to address areas such as loneliness and isolation, town and city centre regeneration, mental health, access to nature and community cohesion. As we build back better, the freelancer pledge commits to doing so creatively, recognising the role culture plays in our recovery.

An adoption of this pledge would further demonstrate public bodies' contribution towards 'A Wales of Vibrant Culture and Thriving Welsh Language' and their promotion of 'cultural wellbeing' within the Sustainable Development Principle.

To progress the pledge, a working group of the following key stakeholders has been established:

- Welsh Government;

- Trade Unions;
- Freelance Community (represented by a diverse group of voices);
- Local Authorities – Vice Chair of Chief Culture and Leisure Officers Wales, Chair of Culture Sub-group;
- Arts Council of Wales;
- Office of the Future Generations Commissioner for Wales.

The recent renaming of the Freelander Pledge and Working Group to Freelancer and Public Sector Pledge and Working Group demonstrates the joint commitment of the public sector and freelance community to progressing this agenda.

## **Wider research**

Our work to support the freelance community through the freelancer fund has also highlighted a gap in our knowledge on the size and makeup of the freelance community in Wales. We estimate that there are 40,000 active freelancers in Wales, who play a significant role in addressing key Government priorities such as mental health, loneliness and isolation. We are aware these individuals support Local Authorities on a range of projects. However we need to know more about the significant contribution freelancers make at a local and national level. Our intention is to use new arrangements and our strengthened relationships with the freelance community through the freelancer fund and the working group to build a better picture of the importance of the freelance sector to local economies, the Welsh economy, to the social agenda and to community wellbeing. Alongside this, we aim to develop a detailed understanding of opportunities across the freelance and public sectors which should be of benefit to all of our work going forward. I am also writing to the Chairs of the Public Service Boards to provide an update on this area of work, as we are very keen to ensure we have an overall public sector approach to taking this forward.

I am sure you are aware we are now working on delivering £30m through the second round of the Cultural Recovery Fund, which has again included an element of support for freelancers. I thank you and your team for once again supporting us in delivering this important fund.

My officials would welcome an opportunity to discuss any of the above in more detail with your team at any time.

Yours sincerely

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Dawn Bowden AS/MS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip  
Deputy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.